# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 11ed Tachwedd '19

Presennol: Sian Parri, Medwyn Jones, Gareth Jones, John Davies, Humphrey Williams, Seimon Glyn.
Ymddiheuriadau: Alan Hughes, Henry Huws.
Eglurodd y Cadeirydd fod Alan Hughes wedi colli ei dad, gan ddatgan fod y Cyngor yn anfon eu cydymdeimlad ato a'r teulu yn neu profedigaeth.

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:

a. **Lon Treferwin –** Derbynwyd llythyr gan Mrs Elaine Davies yn egluro eu bod wedi rhoi cais i'r adran ffyrdd am arwyddion rhybuddio au bod yn disgwyl ymateb. Yn y cyfamser byddent yn gosod arwyddion symudol 'mwd ar y ffordd'.

b. **Mynwent Tudweiliog –** Trafodwyd y bydd y Cyngor Cymdeithas yn cymeryd cyfrifoldeb o chwilio am dir newydd cyn y bydd y mynwent bresennol wedi llenwi. Byddwn hefyd yn ystyried y cais am ychwaneg o arian pan yn trafod y prisept flwyddyn nesaf.

c. **Sedd Wag –** Gan na fu gofyn am etholiad cafodd y Cyngor Cymuned yr hawl i gyfethol cynghorydd i lenwi'r sedd wag. Bu rhybudd ar y safle we ac yn ffenestr y Post – un ddaru ddatgan diddordeb sef Mr Terry Hughes – cynigiwyd ac eilwyd i dderbyn Terry Hughes.

ch. **Cyflwr lon ger Gorffwysfa Garnfadryn –** Derbynnwyd llythyr gan yr Adran Priffyrdd yn egluro eu bod wedi ymweld a'r safle a'u bod o'r farn fod cyflwr y ffordd yn gyffredinol dda iawn arwahan i un twll catogori 1 – bydd y gwaith i atgyweirio'r diffyg yn cael ei roi ar raglan waith ac y caiff sylw yn ei dro.

d. **Arwyddion Porth Colmon –** Derbynnnwyd llythyr gan Barry Davies yn ymateb i ebost y Clerc. Dywedodd nad oedd ganiatad wedi ei roi i ail osod yr arwyddion ar y safle, unwaith y bydd caniatad wedi ei roi gan y tir berchennog yna byddent yn cael eu ail gosod. Trafodwyd yr uchod, a penderfynwyd mai gwell fyddai i aelodau or Cyngor Cymuned ofyn am gyfarfod gyda'r Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd er mwyn derbyn arwyniad ar y mater.

4. **Gohebiaethau:**

a. **Llythyr Rhian Williams –** Derbynwyd llythyr gan Mrs Rhian Williams Cae'n y Cefn, Llangwnnadl, yn datgan ei phryder am sefyllfa beryglus iawn i drafnidiaeth ar y ffordd wrth Siop y Bont Llangwnnadl. Rhoddodd Mrs Williams gais am i'r Cyngor Sir roi arwyddion ARAF bob ochr i'r bont, a hefyd rhoi llinell ar y ffordd o un cyfeiriad fel bod gyrrwyr yn gorfod rhoi blaenoriaeth i gerbydau o'r cyfeiriad arall. Awgrymwyd hefyd gan y Cyngor Cymuned roi cais ar farbio'r clawdd. Bydd y Clerc yn cysylltu a'r adran Priffyrdd.

b. **Anfoneb Cyngor Gwynedd –** derbynnnwyd anfoneb gan Cyngor Gwynedd am £138.00 am waith Archwyliad Mewnol – pasiwyd i'w dalu.

c. **Clwb Moduro Harlech a'r Cylch cyf** – Derbynwyd llythyr yn hysbysu fod rali Goffa James Trenholme yn cael ei chynnal nos Sadwr/bore Sul 23/24 Tachwedd.

5. **Unrhyw fater arall**

a. **Presenoldebau Cynghorwyr –** Tynnwyd sylw pawb unwaith yn rhagor at y rheol ple os nad yw Cyngorwr yn mynychu cyfarfod o'r Cyngor am gyfnod o 6 mis yn olynol, yna fod dyletswydd arno/arni sefyll i lawr o'i gyfrifoldeb o fod yn Cyngorydd Cymuned.

b. **Dwr yn casglu-** Cafwyd pryder fod dwr glaw yn casglu ar ddarn o'r lon sydd ger Bryniau Edern, gan awgrymu fod y 'manhole' wedi cau. Bydd y Clerc yn gwybyddu'r Adran Priffyrdd o hyn.

CYNHELIR Y CTFARFOD NESAF AR 9ed Rhagfyr 2019
YNG NGHANOLFAN TUDWEILIOG AM 7.15yh